# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 27ain Tachwedd 2014.**

**Presennol.** Cynghorwyr:- Dafydd Evans, Aled Griffiths, Gwyn Jones, Hugh Jones, Derryck Lewis, Gareth Owen, William Owen, Gwen Lloyd, Ann Williams, Gwenfair Davies a'r Cynghorydd Sirol. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, John Pughe Jones a Huw Williams.

**51. Cofnodion cyfarfod 30ain Hydref 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**52. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Ymddeoliad y Cynghorydd Tom Thomas. Fel arwydd o werthfawrogiad iddo am hanner can mlynedd o wasanaeth, bu'r clerc yn holi prisiau o gyflwyno llechen neu dystysgrif iddo, a chytunwyd ar dystysgrif wedi ei fframio. Bydd y gost oddeutu £28 i'r cyngor. Estynnir gwahoddiad i Tom ac Eleanor Thomas i gyfarfod mis Rhagfyr.
Nid oes cais wedi ei wneud am y sedd wag, ac mae'r aelodau'n rhydd i gyfethol yng ngyfarfod mis Rhagfyr.
44.19.17.1 Cafwyd eglurhad pellach gan y Cyng. Gwilym Fychan ar y datblygiadau diweddaraf ynglŷn â chau'r ganolfan Potters ym Machynlleth. Am gyfnod o dreial o chwe mis o ddechrau'r flwyddyn nesaf ymlaen bydd dwy lori ar gael ym maes parcio Machynlleth ar fore Sadwrn i godi sbwriel i'w ailgylchu. Dangosodd rhai eu hanfodlonrwydd fod, unwaith yn rhagor, y rhan yma o Bowys yn cael ei dargedu am doriadau ac am anfon llythyr i'r Cyngor Sir i'r perwyl hwnnw, gyda chopi i'r canlynol:- Aelod y Cynulliad; Aelod Seneddol a Jane Dodds, ymgeisydd y Rhyddfrydwyr/Democratiaid.
44.25.10 Bydd Mr Jervis yn ymweld â'r ardal ar fore Gwener 12fed Ragfyr a chytunodd y Cynghorydd Fychan i'w dywys o gwmpas i ddangos rhai o'r mannau sydd angen sylw.
44.42.3 Darllenwyd llythyr oddi wrth Richard Baker yn awgrymu cyfarfod pellach a chytunwyd i drefnu un ym Mhantperthog ym mis Chwefror 2015.
46.1 a 46.2 Derbyniwyd llythyron o ddiolch oddi wrth Wyn Evans, Trysorydd y Ganolfan, a'r Lleng Prydeinig am y cyfraniadau.

**53. Cynllunio.**
**P2014 1013**. Codi tŷ fforddiadwy ar dir ger Cae Iago, Llanwrin. Dangosodd Gwenfair Davies ddiddordeb. Cefnogi.
**P2014 1105** Ychwanegiad dau lawr yng nghefn Brythonfa, Cemaes. Cefnogi.

**54. Eitemau i'w talu.**
54.1 Mr Glenn Ward am ofalu am y ddwy fynwent. £1200 a £400 ychwanegol am lanhau'r lle garw ym mynwent Llanwrin. Eglurodd y clerc mae'r unig amod yn y rhodd o £2000 a dderbyniwyd yn ewyllys George Evans, Tŷ Uchaf, Llanwrin yn 2006 oedd bod yr arian i'w wario ar y fynwent yn Llanwrin. Cytunwyd talu'r £400 ychwanegol o'r gronfa honno.

**55. Cais am arian.**
Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**56. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**

56.1 Diolchodd Hugh Jones i'r cadeirydd am ei wasanaeth yn gosod y dorch ar y gofeb yng Nghemaes ar fore Sul y Cadoediad. Eglurodd hefyd y bydd y trenau rhwng Aberystwyth a'r Amwythig yn rhedeg bob awr o fis Mai ymlaen.
56.2 Mae enwebiad Gwenfair Davies wedi ei dderbyn gan y Bwrdd Llywodraethol fel llywodraethwr ychwanegol i gynrychioli'r tair ysgol sydd wedi eu ffederaleiddio.
56.3 Roedd cynrychiolydd o Shropdoc yn bresennol yn Fforwm y Cleifion. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig yn yr Amwythig a phwysleisiwyd i'r cynrychiolydd fod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw gan y gwasanaeth. Eglurwyd mai ychydig o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r gwasanaeth yn lleol.

**57. Gohebiaeth.**
57.1 Llythyr o'r Cyngor Sir yn amlinellu'r toriadau sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, a chynnig i'r Gymuned leol ysgwyddo fwy o'r baich neu gau'r gwasanaethau. Y rhai sy'n debygol o effeithio ar Glantwymyn yw'r canolfannau cymdeithasol, llyfrgell, toiledau cyhoeddus a phryd ar glud. Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i gychwyn trafodaeth efo Cyngor Glantwymyn ynglŷn â dyfodol y toiledau yng Nghemaes. Gadael hyd ddechrau 2015. Addawodd y clerc anfon copi i'r cynghorwyr o gostau cynnal yr uned yng Nghemaes.
57.2 O ddechrau Ebrill 2015 mae'r Cyngor Sir yn bwriadu cwtogi'r oriau y bydd y Llyfrgell ym Machynlleth ar agor o 33.5 awr y wythnos i 27 awr a bod y llyfrgell deithiol yn galw unwaith y mis yn hytrach na bob pythefnos o fis Mai nesaf ymlaen.

**58. Unrhyw fater arall.**
58.1 Cytunwyd fod y Cyngor yn cyfarfod ar 18fed Rhagfyr 2014 ac, os yn gyfleus, ar ddiwedd y cyfarfod fod y cadeirydd yn cyflwyno tystysgrif mewn ffram i Tom Thomas gyda chyfraniad gan Hugh Jones a blodau i Mrs Thomas. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn.
58.2 Angen i'r lori halen fynd i *Upper* Cwmlline!!
58.3. Mae'r Ganolfan Hamdden ym Machynlleth yn gaffaeliad mawr i'r ardal a llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, ond mae angen i'r rheolwyr wneud rhywbeth ar fyrder gan fod y safle'n dirywio'n gyflym a golwg ddilewyrch yn mynd ar y lle. Llythyr i'r Cyngor Sir.
58.4. Atgoffa Tai'r Canolbarth am y darn tir sydd angen sylw ar stad Cae'r Efail, Llanwrin.
58.5 Mae contractwr wedi gadael yr encilfa ger Mathafarn mewn cyflwr blêr. Cysylltu â'r Cyngor Sir.
58.6 Gwter wedi cau o dan y Gelli, Cwm Ffrydlan.
58.7 Mae gordyfiant yn rhwystro gwelediad clir i'r briffordd o ffordd Abercegir.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18fed Rhagfyr 2014.**

Tua 8.30 disgwylir y cyn-gynghorydd Tom Thomas i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno tystysgrif iddo am ei gyfraniad i'r ardal am hanner can mlynedd. Darperir lluniaeth ysgafn ar y diwedd.